**EOC 03-03(p1)**

## Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 09.15 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Gweinidog |

**Diben**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2003

**Argymhelliad**

2. Gwahodd aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

**Rights into Action 2003 - Cyngres Ryngwladol o Bobl Ifanc Anabl**

3. Cyhoeddwyd Rights into Action 2003 ar Chwefror 21.

4. Yn dilyn cyfarfod heddiw, byddaf yn cyhoeddi yn ffurfiol ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r digwyddiad hwn yn y neuadd a gobeithiaf y byddwch yn ymuno â mi, ynghyd â'r bobl ifanc sydd yma heddiw yn cynrychioli'r Gyngres .

5. Bydd y Gyngres Ryngwladol o Bobl Ifanc Anabl yn ddigwyddiad pwysig iawn a fydd yn denu pobl o bob cwr o'r Byd. Bydd yn cael ei chynnal rhwng dydd Llun 30 Mehefin a dydd Gwener 4 Gorffennaf 2003. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfrannu £125,000 tuag at gostau cychwynnol cynnal y digwyddiad.

6. Mae'r gyngres yn unigryw gan fod pobl ifanc anabl wedi bod yn rhan o'i sefydlu ers y cychwyn cyntaf, a chan y bydd yn cael ei harwain yn gyfan gwbl gan ei defnyddwyr. Bydd y pwyslais ar godi materion gan y cynrychiolwyr, yn gyffredin ac yn wahanol, sy'n effeithio ar eu bywydau. Disgwylir i'r trafodaethau hyn ddylanwadu ar y bobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau. Dyma'r ymgais gyntaf ar brosiect o'r fath.

Mae'r Gyngres yn cael ei chynnal er mwyn:

- Codi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n bosibl gyda deddfwriaeth y wlad hon, yn enwedig yng ngoleuni'r Comisiwn Hawliau Anabledd a sefydlwyd yn ddiweddar ac ar ôl i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ddod i rym.

- codi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill ar hyn o bryd

- archwilio ffyrdd y gallwn gefnogi'r holl bobl ifanc i ddiogelu'u hawliau a brwydro yn erbyn gwahaniaethu

- rhoi ffocws arbennig ar hawliau pobl ifanc anabl gan roi llais i'w safbwyntiau ar yr hyn y mae angen iddo ddigwydd er mwyn brwydro yn erbyn gwahaniaethu

Gobaith y bobl ifanc sydd eisoes yn cymryd rhan yw bod y digwyddiad hwn yn gam cyntaf tuag at Rwydwaith Rhyngwladol o Bobl Ifanc Anabl. Bydd hyn yn sail i waith y rhai a fydd yn gwneud penderfyniadau ac yn llunio polisïau ac yn dylanwadu arnynt ac fe fydd yn gwneud cynhwysiant cymdeithasol yn realiti i genedlaethau'r dyfodol.

**CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL**

7. Bûm yn briffio'r aelodau yn fy adroddiad i'r cyfarfod Pwyllgor ar 13 Chwefror ar y gwaith o baratoi dogfen ymgynghori fel rhan o'n hadolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad.

8. Mae holl is-adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys Swyddfa'r Llywydd wedi bod yn adolygu'u swyddogaethau, eu polisïau a'u gwasanaethau yn unol â gofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae hyn yn golygu nodi'r holl swyddogaethau, polisïau a gwasanaethau, asesu a ydynt yn cael, neu a allent gael, effaith wahanol ar gymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, egluro pa gamau a awgrymir a sefydlu trefniadau monitro ac ymgynghori. At hynny, mae staff yr Is-adran Bersonél yn gweithio ar weithredu dyletswyddau cyflogaeth penodol y Ddeddf.

9. Fel y dywedais yn fy adroddiad diwethaf, mae ystod helaeth o swyddogaethau'r Cynulliad yn gwneud hyn yn her fawr. Cefais fy mriffio y mis diwethaf gan swyddogion ar hynt llunio'r ddogfen ymgynghori ac fe'm hysbyswyd na fyddai'n bosibl cwblhau'r holl waith angenrheidiol mewn pryd i'r lansiad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 26 Mawrth. Y prif ffactor yn hyn o beth oedd eu hasesiad, a oedd yn dangos nad oedd gan yr holl is-adrannau drefniadau gweithio digon agos gyda chynrychiolwyr perthnasol o'r cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig i sicrhau fod yr asesiad o effaith wahaniaethol, yn ffrwyth gwybodaeth drylwyr ac yn gadarn.

10. Mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Lywydd, fel cadeirydd Pwyllgor y Ty, fy marn i oedd bod angen mwy o amser i sicrhau bod y dadansoddiad a'r drafodaeth angenrheidiol wedi'u cwblhau cyn lansio'r ymgynghoriad. Am fod etholiadau'r Cynulliad yn dod yn nes, golyga hyn na fydd yr ymgynghoriad yn cychwyn tan ddiwedd Mehefin/Gorffennaf. Mae'r penderfyniad yn rhoi cyfle i ni baratoi dogfen ymgynghori a fydd yn ffrwyth gwybodaeth fwy trylwyr ac a fydd felly'n fwy credadwy, dogfen y bydd gan y Gweinidogion, y Llywydd ac aelodau'r Pwyllgor hwn hyder ynddi. Bydd hefyd

yn caniatáu i ni fraenaru'r tir gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar gyfer yr ymgynghoriad ei hun. Byddwn yn bwriadu i'r cynllun diwygiedig gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd 2003.

**Adroddiad 'Snakes and Ladders'**

11. Ddoe roeddwn yn bresennol yn lansiad adroddiad 'Snakes and Ladders'. Comisiwynwyd yr ymchwil hon ar y cyd gan y tri chomisiwn cydraddoldeb a Chomisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol, ac fe gafodd ei gynnal gan dîm o Brifysgol Cymru, Bangor. Deilliodd o'r gred bod pobl yng Nghymru wedi bod yn llai tebygol o fynd ag achosion trwy'r system Tribiwnlys Cyflogaeth na phobl mewn mannau eraill o'r DU. Edrychodd ar yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag cael cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth ac mae'n gwneud argymhellion ar sut i newid.

**Ymgynghoriad Effeithiol**

12. Rwy'n awyddus i ni sicrhau bod ymgynghoriad yn effeithiol ac rwyf wedi gofyn i swyddogion gwrdd â'n partneriaid gan gynnwys y comisiynwyr a'n cyrff ymgynghorol i rannu arferion gorau ac i sicrhau bod trafodaethau yn cael eu cynnal â sectorau eraill y Cynulliad er mwyn i ni gyd fynd â hwn yn ei flaen gyda'n gilydd.

**'An Absolute Duty'**

13. Yn dilyn trafodaeth y Pwyllgor ar sut y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi'r 8 argymhelliad yn yr adroddiad 'An Absolute Duty' ar waith, gallaf gadarnhau fy mod wedi ysgrifennu at: Y Gwir. Anrh. Patricia Hewitt AS - yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, y Gweinidog dros Fenywod ac E-bost yn y Cabinet, y Gwir. Anrh. Paul Murphy AS - yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ogledd Iwerddon, Barbara Roche AS - y Gweinidog dros Allgáu Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Fenywod a Margaret Curran ASA - y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, gyda golwg ar dynnu'u sylw at yr adroddiad a'r buddion y gallai gweinyddiaethau eraill elwa arnynt wrth geisio mabwysiadu dyletswyddau statudol tebyg.

**Goblygiadau deddfwriaeth newydd ar aflonyddu yn y gweithle**

14. Yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 16 Ionawr, gwnaed ymrwymiad gan Peter Gregory i gwrdd â chynrychiolydd o Fforwm Lesbiaid, Hoywon a’r Deurywiol Cymru i drafod goblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd i amddiffyn rhag gwahaniaethu yn y gweithle ar sail rhywioldeb.

Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfarfod hwn bellach wedi'u gwneud ac mae Peter Gregory wedi trefnu cwrdd â Derek Walker o'r Fforwm ar 10 Mawrth gyda chyd-weithwyr o'r Is-adran Bersonél a'r Uned

Polisi Cydraddoldeb. Bydd y prif faterion i'w trafod yn cynnwys y sensitifrwydd penodol wrth fonitro rhywioldeb yn y gweithle ac opsiynau posibl ar gyfer dadlennu rhywioldeb yn wirfoddol. Bydd gwahaniaethu ac aflonyddu gweithwyr hoyw, lesbiaid a deurywiol a materion ynghylch cyflog, pensiwn a manteision eraill hefyd ar yr agenda ynghyd â materion y mae Fforwm Lesbiaid, Hoywon a’r Deurywiol Cymru wedi'u nodi fel rhai sydd yn bwysig i'r drafodaeth hon.

**Dysgu a Datblygu**

15. Mae aelodau'r Cabinet bellach wedi derbyn yr hyfforddiant cyfle cyfartal y soniwyd amdano yn fy adroddiad diwethaf. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i edrych ar rai o'n cyfrifoldebau cyfreithiol a moesol wrth sicrhau cydraddoldeb. Byddaf yn trafod, gyda swyddogion sut y gallwn adeiladu ar y sesiynau sydd wedi eu cynnal.

16. Mae'r Pwyllgor wedi dangos diddordeb mewn darparu hyfforddiant cydraddoldeb i holl Aelodau'r Cynulliad, a byddwch yn falch o wybod bod trafodaethau ar y gweill i sicrhau y bydd hyfforddiant cyfle cyfartal yn rhan o'r sesiynau cynefino ar gyfer yr Aelodau Cynulliad newydd.

**Cyfarfodydd**

17. Bûm mewn brecwast Arweinwyr Busnes gyda Barbara Roche, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn ogystal â chyfarfod â'm cymar yn yr Alban, Margaret Curran ASA, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol. Rwyf hefyd wedi cwrdd â Beverley Hughes, Gweindiog Gwladol (Dinasyddiaeth, Mewnfudiad a chydlyniad cymunedol) y Swyddfa Gartref.

Rwyf wedi cyfarfod â Syr Bernard Crick i drafod adroddiad 'Life in the UK

Yn lleol rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Anabledd Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Sector Gwirfoddol.

Rwyd wedi cymryd rhan mewn sesiwn Cwestiwn ac ateb gyda chynrychiolwyr o'r Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol i'r Byddar.

Hefyd, roeddwn yn bresennol yn ymgynghoriad Gogledd Cymru am gael Un Corff dros Gydraddoldeb a chyfarfod Bord Gron y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ar Gydraddoldeb.